

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 20fed o Chwefror 2018.

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)  
Cyng. Gwilym O. Jones  
Cyng. Gordon Owen  
Cyng. William Victor Owen  
Cyng. Sharon Wyn Parry  
Cyng. Einir Thomas

1. **Ymddiheuriadau** – Cyng. Beryl Salisbury
2. **Datganiad o ddiddordeb:** Cyng. Gordon Owen and Gwilym O. Jones – eitem 9 Neuadd Bentref
3. **Cofnodion cyfarfod o 16eg o Ionawr 2018:**  
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. William Victor Owen, eilio Cyng. Einir Thomas.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
  1. Maes Chwarae: Cytunwyd y dylid gofyn i McVenture Playgrounds Cyf. Ienwi'r bylchau o dan pob darn o offer gyda 'wet pour'. Roedd Mr Medwyn Owen hefyd wedi cytuno i ddarparu pris am wneud y gwaith paentio ar yr offer a penderfynwyd i ofyn i Mr Craig Redmond gael gwared â'r rhaff oedd wedi'i roi yn maes chwarae.
  2. Llochesi Bws - Nodwyd bod y lloches bws gwyn wrth Ffordd Dinam wedi cael ei dynnu i lawr. Gofynnwyd i CSYM pwy oedd gwneuthurwyr y llochesi bws ar Ffordd Minffordd ond roedd yn rhaid iddynt chwilio drwy hen gofnodion gan nad oedd unrhyw farciau ar y strwythurau. Os na fydd gwybodaeth yn dod i law bydd rhaid gosod bolltau cyffredin.
  3. Gwaith cynnal Treifan - Nodwyd fod plant yn tynnu'r wal gerrig wrth yr offer chwarae i lawr yn raddol ac roedd rhieni'n pryderu am eu diogelwch. Roedd Mr Trefor Jones wedi cytuno i roi dyfynbris am ei atgyweirio, byddai'r clerck yn cysyllu ag ef eto.
  4. Lon Cymyran - Nid oedd aseseiad terfynnol wedi cael ei wneud o'r gwaith fydd angen i'r Llu Awyr a'u contractwyr ei wneud. Yn ôl CSYM sail unrhyw waith fydd y gwahaniaeth rhwng y cyflwr gwreiddiol a'r cyflwr ar ddyddiad yr asesiad, felly roedd o ddiddordeb i'r Llu Awyr a'r contractwyr i hyn ddigwydd cyn gynted a phosibl. Nodwyd hefyd bod oedi wedi bod oherwydd bod yr Adain Briffyrdd wedi

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

cael cyfnod arbennig o brysur yn dilyn difrod storm 22/11/17, llifogydd, eira a rhew.

5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion – Penderfynwyd gofyn i Mr Redmond edrych os oedd modd trin y meinciau ar Stad Treifan a Rhen Ysgol.

### 5. **Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

Penderfyniadau Cynllunio -dim

Ceisiadau Cynllunio

**32EL1542/E Bont Gam, Caergeiliog** - Cais llawn o dan Adran37 Deddf Trydan 1989 i osod lein drydan 240/415v a 73 meder o hyd uwchben y tir - nodwyd nad cebl math domestig oedd hon ond nid oedd unrhyw wybodaeth bellach i awgrymu pam bod ei hangen yno.

### 6. **Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd
2. Gweithdy Cynllunio Lle - 22-02-18 - papurau.
3. Gweithdu hyfforddiant Cyngorau Tref a Chymuned – 27.2.2018. Roedd Cyng. Dyfed Williams a Cyng. Sharon Parry am fynychu hwn.

### 7. **Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2017 i 31.01.2018 ynghyd â Chysoniad Banc a Datganiadau Banc.

**Yn y banc 20.2.2018 Cyfrif Cyfredol £13,240.83 Cyfrif Cadw £3,922.67**

**Taliadau i'w gwneud**

Cyflog (lonawr.)	£179.92	HMRC (TWE)	£45.00
Archwilio Offer Chwarae	£40.00	Cyfieithu	£52.50
Un Llais Cymru	£218		

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

### 8. **Archwilydd Mewnol**

Nodwyd bod gan Mr Hughie Lloyd Jones y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i gynnal

Llofnod.....Cadeirydd.....

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

archwiliad o gyfrifon 2017/18. Roedd dogfennau cyfarwyddyd perthnasol eisoes wedi'u rhoi iddo, byddai'r clerc yn paratoi penodi ffurfiol a rhestr o feysydd i'w hystyried.

9. Neuadd Bentref - Roedd Pwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref ar hyn o bryd yn ailystyried ei statws o ran cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac wedi holi pa gyfranogiad y mae'r Cyngor Cymuned yn ddymuno gael parthed rhedeg y Neuadd y Pentref. Cytunwyd y dylai'r Neuadd Bentref a'i Bwyllgor Rheoli barhau fel corff ar wahân i'r Cyngor Cymuned ond byddai'r Cyngor Cymuned yn parhau i'w chefnogi cyn belled â'i fod yn parhau i fod yn ased cymunedol i Gaergeiliog a'r preswylwyr fel y bwriadwyd yn wreiddiol.  
Gadawodd Cyng. Gordon Owen a Gwilym O. Jones y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

10. **Rhoddion** – y clerc oedd casglu'r ceisiadau i'w hystyried fis nesaf.

11. **Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd - gwybodaeth bellach
2. Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno trethi Cymreig
3. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Lwfansau Cyngorwyr 2018-2019 - cyhoeddwyd y ddogfen derfynol bellach a phenderfynwyd ar y lwfansau sydd ar gael i Gyngorwyr Cyngorau Cymuned a'r hyn oedd ar gael i Gyngorwyr Cymuned o ran costau ac ati. Rhoddwyd copi o'r manylion perthnasol i phob Aelod
4. Un llais Cymru - Bwletin Newyddion Ionawr 2018 - roedd hwn yn cynnwys templed newydd ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg a gwybodaeth bellach ar weithredu'r GDPR a phenodi Swyddog Diogelu Data.
5. Cynllun gwaith polisi trethi 2018 a datblygu trethi newydd yng Nghymru

11. **Unrhyw fater arall**

Nodwyd: bod y bylbiau a blannwyd ger arwyddion y ffordd yn Llanfihangel yn Nhowyn yn edrych yn dda. Cytunwyd i yrru llythyr o ddiolch i Mr Thomas Graham am gynorthwyo'r Cyng. Victor Owen gyda'r gwaith plannu.

12. **Cyfarfod nesaf 20fed o Fawrth 2018**

Llofnod.....Cadeirydd.....

Llofnod.....Cadeirydd.....